Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Troedyrhiw
# Archer Street
# Troedyrhiw
# Merthyr Tudful
# CF48 4JQ

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2015**

## Cyd-destun

Agorodd Ysgol Gynradd Troedyrhiw yn 2006, yn dilyn cyfuno'r ysgolion babanod a phlant iau a arferai fod ar wahân. Mae'r ysgol ym mhentref Troedyrhiw, ar gyrion Merthyr Tudful. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Troedyrhiw a Phentrebach, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn mynychu o ardaloedd ymhellach i ffwrdd. Mae dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar safleoedd mawr ar wahân, ond cyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant o dair i un ar ddeg oed. Mae 221 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 38 o blant yn y feithrinfa, ac o'r rhain, mae naw yn mynychu'n amser llawn a 29 yn mynychu'n rhan-amser.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gartref. Nid yw'r un disgybl yn siarad Cymraeg fel mamiaith. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad ieithoedd Ewropeaidd eraill gartref. Mae rhyw 22% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 31% o ddisgyblion. Nid oes datganiad o anghenion addysgol arbennig gan unrhyw ddisgyblion.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd ym Medi 2012. Yn Ebrill 2009 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Troedyrhiw yn 2014-2015 yw £3,545. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Merthyr Tudful yw £4,192 a'r lleiafswm yw £3,365. Mae Ysgol Gynradd Troedyrhiw yn yr 16eg safle o'r 23 ysgol gynradd ym Merthyr Tudful o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- disgyblion yn datblygu'u medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd yn dda mewn meysydd dysgu a phynciau ar draws y cwricwlwm
- bron yr holl ddisgyblion yn cyfranogi'n arbennig o dda mewn gwaith grŵp annibynnol heb yr angen am ymyrraeth gan oedolyn
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn mwynhau ei defnyddio
- agweddau cadarnhaol at yr ysgol gan bron yr holl ddisgyblion a'u bod yn cyfranogi'n frwd mewn gwersi
- ymddygiad bron yr holl ddisgyblion yn dda iawn o amgylch yr ysgol ac mewn dosbarthiadau
- bron yr holl addysgu yn dda o leiaf
- athrawon yn cynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion dysgu disgyblion o alluoedd gwahanol
- ymdeimlad cadarn o ymddiriedaeth rhwng athrawon a disgyblion sy'n galluogi disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu o oedran ifanc
- systemau effeithiol ar waith i nodi a monitro disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt
- yr ysgol yn gymuned dawel a chyfeillgar lle ceir perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng staff a disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth glir gan y pennaeth a phenderfyniad i gynnal a gwella safonau, a sicrhau lles disgyblion
- ysbryd tîm cryf ymhlith staff sy'n gweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd
- trefniadau monitro trylwyr yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r ysgol
- y system arloesol o gael grwpiau staff sy'n hyfforddi cymheiriaid yn galluogi cydweithwyr i rannu arfer dda, ysgogi hyder a nodi meysydd i'w gwella yn effeithiol
- y corff llywodraethol yn gefnogol a bod aelodau yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol
- dealltwriaeth gywir gan uwch arweinwyr o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu
- yr ysgol yn gweithio'n bwrpasol gydag ystod eang o bartneriaid
- y defnydd effeithiol o athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn gwneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth a'u harbenigedd
- y trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad pob aelod o staff yn cael effaith gadarnhaol ar wella addysgu a dysgu

## Argymhellion

A1 Parhau i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygu'u dealltwriaeth o'r byd ehangach

A3 Sicrhau bod y corff llywodraethol yn darparu her yn ogystal â chymorth i'r ysgol

A4 Mireinio'r gwaith o ddadansoddi hunanarfarnu er mwyn tynnu sylw at y targedau gwella pwysicaf yn fwy eglur

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae cyfran y disgyblion sydd â medrau cyfartalog neu fedrau uwchlaw'r cyfartaledd yn amrywio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu hyder yn gyflym ac yn mwynhau siarad â'i gilydd ac oedolion. O oedran ifanc, maent yn cyfleu eu syniadau a'u barnau yn dda mewn trafodaeth lafar, er enghraifft pan fyddant yn trafod testun. Maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn feddylgar pan fydd disgyblion eraill yn mynegi'u barnau. Maent yn cyfranogi'n arbennig o dda mewn gwaith grŵp annibynnol heb yr angen am ymyrraeth gan oedolion.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn darllen. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae disgyblion yn dysgu llythrennau, seiniau a rhifau newydd yn dda. Mae'r rhai mwyaf abl yn dechrau darllen gyda hyder ar lefel sydd ymhell uwchlaw hynny a ddisgwylir am eu hoedran. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae medrau darllen cadarn gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn mwynhau eu testunau, gallant ddatgodio geiriau sy'n newydd iddynt ac esbonio'r stori yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus gyda mynegiant da, ac maent yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau darllen lefel uwch. Mae'r rhain yn eu galluogi, er enghraifft, i ymchwilio i'w testun dosbarth gan ddefnyddio llyfrau a meddalwedd. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn a wnaeth gychwyn araf mewn darllen wedi gwneud cynnydd nodedig yn y tair blynedd diwethaf, ac erbyn hyn maent yn darllen gyda brwdfrydedd, er eu bod yn gwneud hynny ar lefel ychydig islaw hynny a ddisgwylir am eu hoedran.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf wrth ddatblygu medrau ysgrifennu defnyddiol. Maent yn cyflwyno'n gwaith yn gyson dda, ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o sillafu, atalnodi a chonfensiynau gramadeg. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn ysgrifennu ar draws ystod addas o genres. Mae disgyblion hŷn yn dysgu i wella eu gwaith drwy ailddrafftio. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu addasu'u hysgrifennu ar gyfer cynulleidfa wahanol, er enghraifft, i gyfleu eu safbwynt ynglŷn â'r mudo adeg y rhyfel. Mae'r disgyblion hyn yn ymchwilio ac yn cofnodi bywgraffiad yn ofalus a gyda brwdfrydedd, gan ddefnyddio ystod briodol o eirfa.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn meysydd dysgu a phynciau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen yn cynhyrchu siartiau bar ac yn trefnu rhifau yn gywir yn eu testun ar Archarwyr. Ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn dadansoddi data ynghylch sut mae pobl o wledydd gwahanol yn trefnu unigolion adnabyddus yn ôl eu pwysigrwydd. Mae'r disgyblion hyn yn datblygu dealltwriaeth briodol o sut i gyflwyno data.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio Cymraeg yn hyderus yn eu harferion bob dydd ac mae eu medrau llafar yn datblygu'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn eglur gan ynganu'n dda, ac maent yn gwneud cynnydd da. Mae medrau ysgrifennu'r mwyafrif o ddisgyblion mewn Cymraeg yn datblygu'n addas wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn gallu cofio eu dysgu blaenorol a'i gymhwyso'n briodol pan fyddant yn ysgrifennu yn Gymraeg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf, bu gwelliant cyson, ond bychan, ym mherfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol o ran y deilliant 5 disgwyliedig, ond mae perfformiad yn erbyn perfformiad ysgolion tebyg yn amrywiol. Mae perfformiad disgyblion ar y lefel 6 uwch yn amrywio hefyd ond yn gyffredinol mae wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg neu'n uwch dros yr un cyfnod.

Mae deilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn amrywiol dros y pedair blynedd diwethaf. Mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg yn bennaf. Fodd bynnag, mae craffu ar waith disgyblion yn ystod yr arolygiad yn awgrymu bod disgyblion yn aml yn gweithio ar lefel uwch na hynny sy'n cael ei awgrymu gan ddeilliannau asesiadau athrawon yn y ddau gyfnod allweddol.

Yn gyffredinol, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud gystal â'u cyfoedion ond mae deilliannau'n amrywiol. Ychydig o wahaniaeth sydd ym mherfformiad bechgyn a merched ac eithrio mewn Saesneg, lle mae merched yn perfformio'n well.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn cydweithredu'n dda iawn â staff ac â'i gilydd. Mae eu hymddygiad o amgylch yr ysgol ac mewn dosbarthiadau yn dda iawn. Mae agweddau cadarnhaol gan bob disgybl bron tuag at yr ysgol. Maent yn cyfranogi mewn gwersi yn hyderus ac yn frwdfrydig, ac yn dilyn arferion dosbarth athrawon yn dda iawn. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gweithio'n effeithiol mewn grwpiau bach, parau ac yn unigol.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol gyfan yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn gwneud digon o ymarfer corff ar yr iard chwarae fawr ac yn y parc cyfagos. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn ystod dda yr ysgol o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod pwy i fynd atynt i siarad i gael cefnogaeth a chymorth. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn gweithredu fel mentoriaid cyfoedion yn ystod amser chwarae ac yn darparu help a chyfeillgarwch y mae disgyblion iau yn eu gwerthfawrogi.

Drwy'r cyngor ysgol a'r cyngor eco effeithiol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i ymgymryd â chyfrifoldeb a chymryd rhan mewn penderfyniadau. Mae'r cynghorau hyn yn gwneud cyflwyniadau i'r corff llywodraethol ynglŷn â'u gwaith, sy'n cynnwys, er enghraifft, gwella gemau ar yr iard chwarae a darpariaeth ar gyfer ailgylchu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, bu gwelliant cyson ym mhresenoldeb yr ysgol o sylfaen isel. O gymharu â rhai ysgolion tebyg, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn debyg i'r cyfartaledd. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r ystod o fesurau y mae'r ysgol wedi'u rhoi ar waith i annog presenoldeb da. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd uchel. Mae'r rhain yn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r cwricwlwm ac yn sicrhau dilyniant yn nysgu disgyblion. Mae athrawon yn gweithio'n dda â'i gilydd i gynllunio rhaglenni astudio tymor canolig a thymor hir priodol. Mae staff yn datblygu'r cynlluniau hyn yn effeithiol o amgylch themâu testunol llawn dychymyg sy'n dal diddordeb disgyblion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion iau yn cael cyfleoedd gwerthfawr i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n eu galluogi i ddatblygu'u hannibyniaeth yn dda.

Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod ffocws priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm. Maent yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ymarfer y medrau hyn ar lefel briodol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sydd o fudd i lawer o ddisgyblion. Er enghraifft, mae'r clwb rhedeg, a gefnogir yn dda, yn annog ffitrwydd, ac mae'r clwb garddio yn addysgu disgyblion ynglŷn â thyfu eu bwyd eu hunain. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofal am eu hamgylchedd a chynaliadwyedd. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar helpu disgyblion i ddysgu am y byd ehangach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos Cymreig amlwg drwy arddangosiadau, y defnydd o'r iaith a digwyddiadau diwylliannol.

**Addysgu: Da**

Mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth rhwng athrawon a disgyblion sy'n galluogi disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu o oedran ifanc. Mae arferion dosbarth o ddydd i ddydd wedi'u sefydlu'n dda gan yr holl athrawon ac mae pob disgybl yn eu deall. Mae'r rhain yn rhoi'r hyder i ddisgyblion wybod beth mae staff yn ei ddisgwyl ganddynt. Mae athrawon a staff cymorth yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion ac yn rhoi digon o ganmoliaeth ac anogaeth briodol iddynt.

Ym mhob un o'r gwersi, mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu clir gyda disgyblion ac yn monitro eu cynnydd tuag at y rhain yn fanwl. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau dychmygus sy'n rhoi ystyriaeth briodol i anghenion dysgu disgyblion o alluoedd gwahanol. Mae gwybodaeth bynciol dda gan bob athro ac maent yn defnyddio adnoddau'n dda i gynnal diddordeb disgyblion yn y tasgau. Er enghraifft, mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn hyderus i ymchwilio i destunau, ffilmio deialog neu i atgyfnerthu eu medrau darllen.

Mae bron pob athro yn cyflwyno gwersi ar gyflymder da. Mewn dosbarthiadau ar gyfer disgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn darparu cydbwysedd da o weithgareddau strwythuredig a chyfleodd priodol a chyffrous iddynt ddysgu drwy chwarae. Er enghraifft, mae plant iau yn datblygu'u dychymyg a'u geirfa pan fyddant yn cymysgu diod hud o gynhwysion rhyfedd.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol i ddatblygu medrau meddwl disgyblion. Maent yn annog y defnydd o 'bartneriaid siarad' i helpu disgyblion i archwilio syniadau gyda'i gilydd. Yn gyffredinol, maent yn gorffen y wers gydag amser defnyddiol ar gyfer trafod pan fydd disgyblion yn myfyrio ar eu dysgu.

Mae pob athro yn marcio gwaith disgyblion yn briodol. Maent yn gwneud sylwadau buddiol fel bod disgyblion yn gwybod sut gallant wella eu gwaith. Mae'r ysgol yn cynnal asesiad rheolaidd o ddisgyblion unigol ac yn olrhain eu cynnydd yn ofalus. Mae staff yn rhannu'r wybodaeth hon yn dda i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion disgyblion unigol yn effeithiol.

Caiff rhieni a gofalwyr adroddiadau defnyddiol ynglŷn â chynnydd eu plant. Mae'r adroddiadau yn nodi'r cryfderau yng ngwaith disgybl yn glir ac yn darparu awgrymiadau defnyddiol ar gyfer datblygu ymhellach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau cynhwysfawr gan yr ysgol i gefnogi iechyd a lles disgyblion ac i annog eu hymglymiad ym mywyd yr ysgol. Mae'r trefniadau i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn briodol. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae staff a disgyblion yn trin ei gilydd â pharch. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau dod i'r ysgol.

Mae profiadau dysgu addas yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, sesiynau cyd-addoli a chyfleoedd i gymryd rhan yn y llu o weithgareddau allgyrsiol. Mae disgyblion yn dangos gwybodaeth dda am eu hawliau a'u cyfrifoldebau tuag at ei gilydd. Maent yn mwynhau cymryd rhan yng ngwasanaethau'r ysgol sy'n rhoi cyfleoedd priodol iddynt fyfyrio.

Mae cysylltiadau da gan yr ysgol ag asiantaethau allanol yn yr awdurdod lleol sy'n darparu cymorth ac arweiniad i staff, disgyblion a rhieni. Mae'r ysgol yn rhoi ffocws cadarn ar wella presenoldeb disgyblion, ac mae'n gweithio'n agos â'r swyddog cynhwysiant addysg i ymgysylltu â rhieni.

Ceir systemau effeithiol ar gyfer nodi a monitro disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drwyadl ac yn cynnwys targedau clir. Mae rhieni a disgyblion yn ymwybodol o'r rhain ac mae'r targedau yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da yn y dosbarth a thrwy raglenni ymyrraeth. Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro cynnydd disgyblion ac i adolygu a diweddaru eu targedau. Mae systemau olrhain yn drylwyr ac yn galluogi staff i gynllunio darpariaeth bellach yn briodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar lle ceir perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng staff a disgyblion. Ceir ethos tawel a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n hapus. Mae'r holl ddisgyblion, waeth beth yw eu cefndir neu ryw, yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ac yn gwneud hynny'n frwdfrydig. Mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cael digon o gyfleoedd i ymuno â'i gilydd fel eu bod yn rhan o un ysgol, er gwaetha'r pellter rhwng y safleoedd.

Mae adeiladau'r ysgol yn groesawgar, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd dysgu yn ddeniadol. O amgylch yr ysgol, mae arddangosiadau lliwgar o waith disgyblion yn hyrwyddo'u dysgu yn effeithiol. Ceir mannau darllen dychmygus ac ysgogol ym mhob ystafell, ynghyd ag adnoddau a llyfrau o ansawdd da. Mae disgyblion yn cael defnyddio ystod eang o adnoddau dysgu addas ar gyfer yr holl feysydd pwnc. Mae ystod dda o offer TGCh gan yr ysgol yn yr ystafelloedd dosbarth.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i hadeiladau. Mae staff yn defnyddio'r ardal ac adnoddau awyr agored yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Ceir mannau chwarae eang sy'n darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu a chwarae. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r parc cyfagos a chyfleusterau lleol eraill, er enghraifft y clwb rhedeg ar ôl ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth, ynghyd â phenderfyniad i gynnal a gwella safonau, a sicrhau lles disgyblion. Mae'n cyfleu'r weledigaeth honno'n dda i staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae wedi ffurfio tîm effeithiol sy'n rhoi cyfeiriad a phwrpas i fywyd a gwaith yr ysgol. Caiff gefnogaeth dda gan uwch reolwyr wrth gyfleu'r disgwyliadau hyn. Mae dealltwriaeth glir o'u rolau gan bob un o'r staff, ac maent yn gwybod bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi. Ceir ysbryd tîm cadarn a theimlad o rymuso ymhlith staff, sy'n gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn.

Mae trosolwg clir o waith yr ysgol gan yr uwch dîm arweinyddiaeth. Mae staff ar bob lefel yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd i drafod ystod o faterion priodol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu'r cwricwlwm, anghenion dysgu unigol a pherfformiad disgyblion, yn ogystal â hyrwyddo lles disgyblion. Ceir trefniadau monitro trwyadl sy'n cael effaith gadarnhaol ar wella'r ysgol. Mae'r system arloesol o gael grwpiau staff sy'n hyfforddi cymheiriaid yn galluogi cydweithwyr i rannu arfer dda, magu hyder a nodi meysydd i'w gwella.

Mae'r ysgol yn rhedeg yn dda o ddydd i ddydd. Mae'r staff ategol yn darparu cymorth gwerthfawr.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac mae aelodau'n ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Yn gyffredinol, mae gan lywodraethwyr ddiddordeb cadarn ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae rhaglen ar waith ar gyfer ymweliadau

dosbarth, trafodaethau gyda chydlynwyr pwnc ac adborth i'r corff llywodraethol, sy'n helpu cynyddu ymwybyddiaeth llywodraethwyr o faterion yr ysgol. Mae staff yn mynychu cyfarfodydd llywodraethwyr yn rheolaidd i adrodd ar bynciau penodol. Fodd bynnag, nid yw rôl y llywodraethwyr yn monitro'r ddarpariaeth ac yn herio'r ysgol wedi'i datblygu gystal.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ei chynlluniau i symud yr ysgol yn ei blaen a chodi safonau. Mae llawer o'r mentrau mewn meysydd sy'n cynnwys presenoldeb, addysgu ac asesu, a lleihau'r bwlch a achosir gan amddifadedd, eisoes wedi cael effaith gadarnhaol, fesuradwy.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan uwch arweinwyr ddarlun cywir a dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu. Mae'r broses hunanarfarnu yn cynnwys pob aelod o staff yn llawn wrth drafod deilliannau a'u perfformiad eu hunain. Mae'r hunanarfarnu yn defnyddio ystod gadarn o wybodaeth uniongyrchol. Mae arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad disgyblion yn ofalus i nodi pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni. Mae'r ysgol yn gofyn am farnau disgyblion, rhieni a'r awdurdod lleol ac mae'n gweithredu ar y wybodaeth hon yn briodol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn dda, mae'n glir iawn ynghylch pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni ac mae'n sicr ynghylch safonau addysgu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl iawn a chynhwysfawr, ond mae'n rhy gymhleth i bob rhanddeiliad ddeall y materion a nodwyd yn ystod y broses.

Mae cynllunio'r ysgol yn drwyadl ac yn nodi'n glir beth yw'r meysydd i'w gwella yn yr hirdymor. Caiff y rhain eu rhannu yn set o flaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol, sy'n canolbwyntio ar gyflawni deilliannau da ar gyfer pob disgybl. Gellir mesur cynnydd yn erbyn meini prawf penodedig, gyda graddfeydd amser realistig. Mae atebolrwydd yn glir o fewn yr uwch dîm rheoli, ac mae pob aelod o staff yn ei ddeall. Mae ansawdd cyffredinol cynllun gwella presennol yr ysgol yn dda, ac mae hyn yn sicrhau bod systemau cadarn i sicrhau bod addysgu llythrennedd a rhifedd yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n bwrpasol gydag ystod eang o bartneriaid. Ceir partneriaeth effeithiol gyda rhieni. Caiff rhieni ystod dda o wybodaeth ac mae bron pawb ohonynt yn teimlo bod croeso iddynt yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r awdurdod lleol i nodi strategaethau priodol i wella dysgu disgyblion.

Mae trefniadau pontio yn effeithiol. Ceir rhaglen strwythuredig rhwng yr ysgol a darparwyr cyn-ysgol lleol i sicrhau bod y plant ifanc sy'n dechrau'r ysgol yn gyfarwydd â'u hystafell ddosbarth newydd. Mae cysylltiad cadarn gyda'r ysgol uwchradd leol ac mae trefniadau effeithiol ar waith i hyrwyddo lles disgyblion pan fyddant yn trosglwyddo.

Mae athrawon yn arwain gweithgareddau ac yn cydweithredu'n agos â'r clwstwr lleol o ysgolion i rannu arfer dda, er enghraifft wrth hyfforddi a datblygu staff. Maent yn cymedroli ac yn safoni gwaith yn y pynciau craidd gyda'i gilydd ac yn cyflwyno prosiectau ar y cyd. Ceir partneriaethau cadarn gyda sefydliadau hyfforddi, sy'n hyfforddi athrawon a chynorthwywyr cymorth. Mae hyn yn helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth y staff o fethodoleg addysgu a dysgu gyfredol.

Ceir cysylltiadau cymunedol cadarn gyda llawer o sefydliadau lleol a chenedlaethol, clybiau chwaraeon, eglwysi ac elusennau sy'n darparu cyfleoedd cadarnhaol i ehangu profiadau dysgu disgyblion. Mae'r rhain yn gwella lles disgyblion a'u deilliannau moesol, ac yn hyrwyddo'u balchder yn eu cymuned yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth a'u harbenigedd. Ceir trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer yr holl staff yn effeithiol. Mae' staff yn elwa ar hyfforddiant wedi'i drefnu yn unol â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion hyfforddi unigol. Mae rhwydweithiau arfer broffesiynol o fewn yr ysgol yn gadarn, ac yn helpu athrawon i rannu arbenigedd wrth wella profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar godi safonau, yn enwedig mewn darllen, ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli gwariant yn ofalus. Maent yn sicrhau bod cyflenwad da o adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd disgyblion i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

O ystyried y safonau da y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu cyflawni, a'r rheolaeth ofalus ar adnoddau, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6752354 - Ysgol Gynradd Troedyrhiw**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 227 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 22.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 33 | 29 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 66.7 | 86.2 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 29 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 69.7 | 86.2 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 27.6 | 26.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 29 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 78.8 | 89.7 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 24.2 | 37.9 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 29 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 97.0 | 93.1 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 63.6 | 51.7 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6752354 - Ysgol Gynradd Troedyrhiw**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 227 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 22.8 |
| Grŵp PYD | 3 (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 32 | 26 | 35 | 24 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 81.3 | 73.1 | 74.3 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 26 | 35 | 24 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.4 | 80.8 | 85.7 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.4 | 23.1 | 28.6 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 26 | 35 | 24 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.3 | 84.6 | 80.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.1 | 26.9 | 28.6 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 26 | 35 | 24 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.4 | 88.5 | 88.6 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.5 | 26.9 | 25.7 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 137 | 132 | 5 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 136 | 124 | 12 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 91% | 9% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 137 | 128 | 9 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 137 | 137 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 136 | 134 | 2 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 134 | 122 | 12 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 137 | 137 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 137 | 132 | 5 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 133 | 104 | 29 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 136 | 125 | 11 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 126 | 91 | 35 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 72% | 28% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 136 | 103 | 33 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 76% | 24% | |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i’r holiadur i rieni

yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 31 | 19<br>61% | 10<br>32% | 1<br>3% | 1<br>3% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 31 | 17<br>55% | 11<br>35% | 2<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 31 | 23<br>74% | 7<br>23% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 31 | 21<br>68% | 9<br>29% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 31 | 11<br>35% | 14<br>45% | 2<br>6% | 3<br>10% | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 31 | 22<br>71% | 9<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 31 | 24<br>77% | 7<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 31 | 17<br>55% | 14<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 31 | 19<br>61% | 9<br>29% | 2<br>6% | 1<br>3% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 31 | 19<br>61% | 9<br>29% | 2<br>6% | 1<br>3% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 31 | 20<br>65% | 7<br>23% | 1<br>3% | 1<br>3% | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 29 | 17<br>59% | 11<br>38% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 31 | 13<br>42% | 13<br>42% | 5<br>16% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 31 | 20 | 8 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 65% | 26% | 6% | 3% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 31 | 13 | 12 | 5 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 42% | 39% | 16% | 0% | | |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 31 | 18 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 27 | 17 | 8 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 63% | 30% | 4% | 0% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 31 | 18 | 10 | 3 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 58% | 32% | 10% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 31 | 20 | 8 | 2 | 1 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 65% | 26% | 6% | 3% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Rosemary Lait | Arolygydd Cofnodol |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Sarah Botterill | Arolygydd Lleyg |
| Robert Stuart Ian Appleby | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jacqui Roome | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.